OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 565

# Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017

## RHAN 2

## Sgrinio

**Cais am benderfyniad sgrinio**

**6.**—(1) Rhaid i gais am benderfyniad sgrinio—

(a) cael ei wneud i Weinidogion Cymru;

(b) cynnwys plan sy'n ddigonol i adnabod y tir perthnasol;

(c) cynnwys disgrifiad cryno o natur, maint a diben y prosiect a'i effeithiau posibl ar yr amgylchedd;

(d) cynnwys unrhyw wybodaeth arall y gall y ceisydd ddymuno ei darparu neu unrhyw sylwadau eraill y gall ddymuno eu cyflwyno, megis disgrifiad o unrhyw un neu ragor o nodweddion y prosiect a/neu fesurau a ragwelir i osgoi neu atal yr hyn a allai fel arall wedi bod yn effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad sgrinio, cânt ofyn i'r ceisydd ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol ganddynt.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd ynghylch y dyddiad y daw'r cais am benderfyniad sgrinio i'w llaw.